

Llên natur

Bwletin 159

Mai 2021

gan gynnwys Clwb y Llygaid Bach,
adnodd i blant, athrawon a rhieni,
ar y dudalen gefn



Mwyalchen y Mynydd
Mynydd Hiraethog
Dys Griffiths - 5 Ebrill 2021

Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan [Gymdeithas Edward Llwyd](#)

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wikipedia
Cysylltwch â ni trwy llennatur@yahoo.co.uk

(Rhif elusen: 1126027)



Chwarel Porth Simdde



Traeth Aberdaron bora ma 21 Mawrth 2021 - Paul Evans

Bum yn ceisio dyfalu ers tro bwrpas y fframwaith pren yma ben pella gorllewinol traeth Aberdaron. Cynigion rhywun?

DB

Jetty Porth Simdde. Gweler yr hanes.... O **daflen wybodaeth** 'Chwareli a Mwynfeydd'.

"Ar draeth Aberdaron, ym Mhorth Simdde mae gweddillion glanfa. Cafodd ei chodi yn niwedd 19egG i allforio 'barytes' (grisial trwm), y mwyn o Waith Pompren yn nechrau'r 20edG. Chafodd lanfa mo'i defnyddio, yn ôl y sôn."

Dyma **hanes barytes ar Wiki** (ydi ei absenoldeb o fwynfeydd ym Mhrydain yn arwydd bod y mwyn erioed wedi cael ei dynnu o Borth Simdde, ynta jest yr anweledigaeth arferol o Gymru! **Richard Gwyn Neale** Dyma'r daearegydd Ray Roberts (CNC) "Tamaid bach o wybodaeth ar tudalen 6 o **hwn**. Mae'n son am y gwaith yn para 30 mlynedd?" Ewch i dudalennau 6-8 o'r linc.

Dyma ddarn o erthygl y Shropshire CMC: - *The pier was erected not long prior to the first world war, a postcard quoted as being from 1910 (fig.1) does not shew it though there are what could be preparations for its construction visible in the right place. It was present when the 1918 1:2,500 OS map was surveyed (fig. 3) and still there in c1921 (Wilson 1922) when the mine was idle, almost certainly permanently. A photograph exists which shows a crane at the seaward end. Whether the pier was destroyed by storms or dismantled for its timbers is not known, though a similar pier serving Benallt manganese mine at Rhiw just east along the coast suffered this Nothing is known of the amount of barytes exported from the pier nor if supplies came in via it. The sea on this coast can be difficult, again having to quote Benallt mine, only five ships managed to come alongside their pier in the six months to January 1919 (Boyd 1981), the situation would not have been better at Porth Simdde. This was a factor in the closure of Benallt and quite probably of Pompren. The pier must have been about 90 metres long and about 4 metres wide.*



Fig. 2: A portion of a photograph of unknown provenance and date (though obvious quality) showing the pier with what looks like a crane near its seaward end.

The remains consist of c250mm diameter timber piles projecting from the sand, eight at the seaward end, then 16 pairs and one odd one over a (paced) length of about 87 metres. The pier remains are probably much shorter...."

Rhybydd lechyd i ddarpar ddaearegwyr! Does dim cofnod o fwyn **baryte** ger Aberdaron ar **mindat.org** Dyma Ray Roberts eto: "Dwi meddwl taw elusen yn yr UDA yw Mindat sydd yn dibynnu ar mewnbwn gwirfoddol a rhoddion gan pobl. Er bod llwyth o wybodaeth ar y safle, weithiau mae gwybodaeth obscure o orllewin Cymru dim wastad arno!"

Nyth aderyn bach



Nyth ji-binc yn Port. Campwaith mewn cen a mwsog. 28 Mawrth 2021

Elfyn Lewis

Glywais i unwaith am Gwlad y Medra (Sir Fôn) eu bod yn gallu gwneud unrhyw beth "ond nyth aderyn bach". Deud da!

DB

Englyn gwych Roger Jones:

"Ni fu saer â'i fesuriad yn rhoi graen
Ar ei grefft a'i drwsiad,
Dim ond adar mewn cariad
Yn gwneud tŷ heb ganiatâd."

Rhys Hiraethog ac eraill

Enfys wen



Bwa Niwl Cors Ddyga bore ma 4 Ebrill 2021 Sharon Jones-Williams
(cafwyd llun arall o'r un lle yr un pryd gan Gwynant Pierce)

■ ■ ■ Dyma adroddiad Ifor Williams a dynnodd y llun hwn a'i gamera ar 1af Rhagfyr 2009: "Gwelais hwn am bum munud wedi chwech nos Fawrth Rhagfyr y cyntaf 2009. Fel y tybiech roedd hi'n dywyll (yn wyntog ac yn glawio a'r lleud y tu



Enfys Wen, Llanfaglan, 1 Rhagfyr 2009
- enghraifft o enfys yn y nos yn tarddu o olau lleud.
Dim ond y camera a allodd godi'r lliwiau. Ifor Williams

cefn i mi). Dydi'r llun ddim yn dangos y tywyllwch (y camera wedi ei osod ar 1600 ISO 8 eiliad o noethiad ar f/3.5 +hanner stop) sydd yn golygu bod y camera wedi gweld hwn fel pe tai yng ngolau dydd. I'r llygad dim ond fel enfys lwyd oedd hi, ond mae'r lliwiau i'w gweld yn glir gan y camera. Rwyf wedi tywyllu'r llun hefyd!"

■ ■ ■ Mwy am yr enfys wen o Wici (Cymraeg): Enfys wen (dydd) - Wedi ei gymryd drwy niwl ar Lyn Tinaroo, Queensland yn ystod y dydd (bora) 21 Gorffennaf 2014. Y niwl sy'n gwanhau'r lliwiau fel ei bod yn ymddangos yn wyn.

Enfys Wen yn ardal Tinaroo, Gogledd Queensland, Awstralia, 21 Gorffennaf 2014.

Dyma gofnododd Edward Llwyd yn ei Parochialia yn 1699:

LHAN VAIR DYFFRYN CLWYD


Y Kreigie: The Rocks

A Rainbow was seen here in ye night July 27 [16]99



Enfys Wen yn ardal Tinaroo, Gogledd Queensland, Awstralia, 21 Gorffennaf 2014.

Be sy'n sbarduno pryfed i hedfan?



Roedden ni'n eistedd allan yn yr haul braf yn mwynhau trît bach 'ôl Covid' (ai wish!) yng ngardd cyfaill yng ngwaelodion Waunfawr prynhawn yr 2 Ebrill 2021 (diwrnod 33, saeth oren ar y graff) pan gawson ni trît ddwbl – gwenynbryf cynta'r flwyddyn.

Duncan a Gill Brown

...Ond doedd dau trît ddim yn ddigon i ni. Mater o funudau wedyn dyma Angharad Jones yn postio fideo bach o'r union beth (*Bombylus major*), gwenynbryf mawr cynta'r flwyddyn iddi hithau hefyd, yn ei gardd yn Caerffili yr union ddiwrnod, os nad amser hefyd!. "Ma'i sŵn o'n swynol" meddai hi.

Roeddwn i'n meddwl i ddechrau tybed ai crynhoad tymheredd y gwanwyn ers dechrau'r flwyddyn sydd wedi sbarduno rhain i hedfan (Tsum, dechrau 1 Ionawr 2021, Waunfawr 2 Ebrill 2021 124.6C). Ebrill 9 oedd y cyntaf y llynedd ond roedd y Tsum yn llawer llai yr adeg honno. Felly efallai mai y sbardun yw gwres y dyddiau blaenorol. Dyma graff o dymheredd y cyfnod o orsaf dywydd Maes Gwynedd (diolch i Gethin Pritchard).

Ond 4 diwrnod yn ddiweddarach (6 Ebrill - saeth du), pan drodd y tywydd go iawn, dyma Helen Omesher yn tynnu'r llun rhyfeddol yma o *Bombus terrestris* yn Y Bala. Roedd Helen yn ddigon call i dynnu llun o'r amodau cwbl 'anerbynniol' i gacwn y bore hwnnw! 'Mae'n rhaid ei bod angen neithdar' dyfalodd.

Cofnod da. 2.1C oedd y tymheredd 6 Ebrill yn Waunfawr am tua 10yb. (ac o dan y rhewbwynt yn y Bala mae'n siwr. Mae nhw'n dweud ei bod hi'n amhosibl i gacwn allu hedfan o gwbl yn ôl deddfau erodynameg (neu felly oedden ni'n mynnu fel plant yn ein harddegau!). Ond nid yn unig mae'r cacwn yn gallu hedfan wrth gwrs, ond yn dewis hedfan a hithau'n rhewi!!

Cyrn carw o Llyn Cerrig y Rhwydwr

Cyrn carw o Llyn Cerrig y Rhwydwr, afon Glaslyn ger Prenteg, Gwynedd - Mawrth 2021.

Math Williams

■ ■ ■ Mae criw Llên Natur wedi bod yn trawsgrifio dyddiaduron Owen Edwards, Fron Olau, Penmorfa (fferm ger Prenteg, Gwynedd). Dechreuant ym 1820. Mae'r cofnodion i'w gweld ar wefan Llên Natur. Yn eu plith mae **cofnod am gyrrn carw** a dynnwyd o'r afon Glaslyn:

“...Elin a minau yn mynd yn y Prydnhawn i Dy Mr. Owen Aberglaslyn yn gweled yno ddarn o asgwrn pen Carw a dau gorn y'nghlwm [sic] ynddo yn ddwy droedfedd o hyd a phedair Caingc [sic] ar bob un ac yn ddwyfodfeddarbymtheg a hanner o led o flaen i flaen wedi eu cael yn llyn Cerrigrhwydwr wrth dynnu rhwyd ychydig o ddyddiau yn ôl gan Richd. William Tailiwr sydd yn byw yn Aberglaslyn. Tebygyd ar yr olwg oedd arno ei fod yno er's amryw flynyddau!!! Yn dyfod adref cyn naw o'r gloch.”


Nid oes ceirw yn Eryri heddiw ond, a oedd ceirw yno ym 1820? A ble mae “llyn Cerrigrhwydwr”?

■ ■ ■ Dwy rywogaeth o garw sy'n gynhenid i Gymru a Phrydain, sef y carw coch (*Cervus elaphus*), a'r iwrch (*Capreolus capreolus*). Yn ogystal â'r rhain, mae yma hefyd, geirw â smotiau gwyn, y danas (*Dana dana*), a gyflwynwyd yn ôl pob tebyg, gan y Normaniaid,. Roedd elc (*Alces alces*) yma wedi'r Oes Iâ; ond roeddent wedi diflannu erbyn dechrau'r Oes Haearn, tua 3,000 o flynyddoedd yn ôl. Mae dyddiadur Owen Edwards yn disgrifio cyrn y carw coch. Roedd gweld y carw coch i'r



de o Efrog yn anghyffredin erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg; ac erbyn 1700 roeddent wedi eu cyfyngu i ychydig leoliadau yng Nghymru, Lloegr a de'r Alban. Roedd hyn yn ganlyniad o or-hela a cholli cynefin. Cyfnod y Tuduriaid, ar ôl gwrthryfel Owain Glyndŵr oedd yr unfed ganrif ar bymtheg.

Dyma pryd yr ail-drefnwyd daliadaeth tir yng Ngwynedd (rhai ardaloedd am y tro cyntaf ers y Goresgyniad ym 1282), ail-sefydlwyd cyfraith gwlad y tîrfeddianwyr, ac roedd llawer o adeiladu newydd (patrwm tai Eryri) a chlirio coetiroedd. A oedd hyn i gyd yn ddigon i achosi ceirw coch ddiflannu o Eryri?



Ond er mawr syndod i'r mwyafrif ohonom mae'n siŵr, amcangyfrifwyd ym 1995 bod 50 o geirw coch yng Nghymru, a'r rheini o gwmpas Y Trallwng, yn sir Fynwy a Llŷn. (Harris,S., Morris,P., Wray,S. & Yalden,D.W. (1995) *A Review of British Mammals: Population Estimates and Conservation Status of British Mammals Other than Cetaceans*. Joint Nature Conservation Committee, Peterborough. Mae'n bosib felly, mai cyrn crwydryn anghyffredin o garw lleol a fu farw yn y degawdau cyn 1820 oedd y carw a ddarganfuwyd yn Llyn Cerrig y Rhwydwr.

■ ■ ■ A ble mae “llyn Cerrigrhwydwr”?

Yn ôl Gwilym Gelli, argae bach oedd llyn Cerrig y Rhwydwr yn darparu dŵr i olwyn Ffatri (wlân) Glaslyn ger Pont Cerrig y Rhwydwr (SH 589 429). Roedd yr argae mewn ceunant tua 300m i'r gorllewin a 150m uwchlaw Ffatri Glaslyn ond, mae'n annhebyg i'r argae fod mewn bodolaeth ym 1820 (adeiladwyd Ffatri Glaslyn tua 1860). Mae Pwll Cerrig y Rhwydwr ar yr afon Glaslyn tua 200m i'r gogledd ddwyrain o Ffatri Glaslyn. Mae'n adnabyddus fel pwll pysgota heddiw. Mae'n debyg fod siâp y pwll ym 1820, cwta 11 mlynedd ar ôl cau Traeth Mawr gan Y Cob, Porthmadog, yn dra gwahanol i'w siâp heddiw. Mae'r afon yma yn dilyn sianel wedi'i chloddio yn hytrach na chwrs naturiol afon mewn aber, sy'n crwydro ar hyd y blynyddoedd. Dengys mapiau o ddiwedd c19 glawdd mawr syth yn ffinio ochr orllewinol yr afon am ryw 800m o boptu pwll Cerrig y Rhwydwr. Ein casgliad felly yw bod “llyn Cerrigrhwydwr” yn ôl dyddiadur Owen Edwards yn cyfeirio at bwll Cerrig y Rhwydwr ar yr afon Glaslyn er, tebyg bod ei siâp a'i faint yn wahanol i'r pwll heddiw.

■ ■ ■ Ai cyrn o'r cyfnod a ddarganfuwyd ym 1820?

A oes posibil eu bod yn perthyn i oes cynt, gannoedd neu filoedd o flynyddoedd ynghynt? I geisio ateb rhaid gwybod a yw asgwrn cyrn yn goroesi neu'n pydru mewn gwaddod afon?

O chwilota ar y We gwelwn fod cyrn ceirw wedi eu darganfod mewn sawl cloddiad archeolegol heblaw mewn mawn neu mewn ogof sych (llefydd nad ydynt yn pydru); ac mae rhai mor hen â'r Palaeolithig. Er enghraifft, darganfuwyd 227 o gyrrn ceirw o **saflle Mesolithig Star Carr**, mewn gwaddod dwrlawn cyn lyn.



Mewn **papur ymchwil** ar bydredd asgwrn a chyrn tros amser darlener:

"At the marine site, the slightly alkaline aerobic environment caused rapid degradation of protein by a combination of microbial attack and chemical hydrolysis, whereas the mineral component, hydroxyapatite, was protected by the seawater, leading to survival of antler and ivory but rapid degradation of horn. The brackish wetland proved to be the most protective for antler and ivory due to the waterlogged, reduced environment and presence of fine estuarine silt."

Mae'r frawddeg olaf yn disgrifio gwaddodion Traeth Mawr i'r dim. Gwyddom hyn o gofnodion tyllau hyd at 50m o ddyfnder ar hyd **llwybr ffordd osgoi** Porthmadog. Gwaddodion silt sydd yn y tyllau gan fwyaf, ag ychydig o dywod a chlai. Cânt eu nodi fel "alluvium", sef gwaddod afon, nid gwaddod môr na thraeth. Tuag at Benmorfa, ger cylchdro Tremadog, mae 30m o waddod afon ar ben rhewglai (*till*). Mae'r gwaddodion wedi eu rhydwythio (*reduced*), nid wedi eu hocsieiddio (ac mae hyn i'w ddisgwyl mewn gwaddodion afon neu aber dyfnach na rhyw fetr neu

Cofiwch bod y geiriau piws yn arwain at fwy o wybodaeth

ddwy; ystyriwch laid llwyd-ddu, gludiog, drewllyd). Mae'r gwaddodion yn cynnwys malurion cregyn (cregyn dŵr croyw?) a deunydd organaidd mewn gwahanol dyllau ac o unrhyw ddyfnder hyd at 50m: ac mae'n dangos nad yw popeth calch nac organaidd wedi pydru yng ngwaddodion Y Traeth Mawr.

■ ■ ■ Sut bod gwaddodion afon Traeth Mawr yn ymestyn o leiaf 50m yn is na'r datwm môr presennol?

Mae'r gwaddodion afon yma ar ben rhewglai'r Oes Iâ (mewn mannau beth bynnag); ac adeg dyddodi'r rhewglai roedd lefel y mor 120m yn is nac yw heddiw, a'r arfordir yn cyrraedd hanner ffordd i Iwerddon! Cwm afon oedd Traeth Mawr nes i'r môr gyrraedd rhwng 7,000 a 4,000 o flynyddoedd yn ôl wrth i lefel y môr godi o 4m i 1m yn is nac yw heddiw. Oddi ar y cyfnod hwnnw hyd cau Y Cob yn 1811 mae'r Traeth Mawr wedi bod yn aber rhwng dau lanw.

Mae'n bosibl felly, fod y cyrn carw wedi bod yng ngwaddod gwely'r afon am gannoedd o flynyddoedd (ar ddyfnder o 2m i 4m o dan dir Traeth Mawr), ac mai newid yng nghwrs yr afon Glaslyn ei ddatgelu a rhwyd y pysgotwr wnaeth ei godi i'r wyneb.

■ ■ ■ Casgliadau

Efallai bod pen carw pwll Cerrig y Rhwydwr wedi ei daflu i'r afon o dŷ crand i fyny'r afon gan bobl nad oeddynt bellach ei eisiau ar ôl eu saethu tra ar wyliau yn yr Alban? Efallai bod y cyrn yn perthyn i garw anghyffredin a oedd wedi crwydro i'r ardal o bell; ac a fu farw ar lan y Glaslyn yn y degawdau cyn 1820? Ac mae hi'n bosibl bod y pen wedi gorwedd yng ngwaddod yr afon ers canrifoedd a'i fod yn dyddio o gyfnod pan oedd ceirw coch yn rhodio Eryri, cyn iddynt gael eu difa gan hela.



Nyth y delor



Delor y Cnau yn paratoi nyth...
Keith O'Brien, 6 Ebrill 2021
Llyn Trawsfynydd

Mae cyfnod Cofid wedi rhoi bri mawr ar y cyfarfodydd Zoom bondigrybwyll. A finnau wedi ymuno'n ddiweddar â grŵp siaradwyr Llydaweg fy hen gynefin acw yn Llydaw, mae'na wastad gyfle i gymharu pethau yn ystod y cyfarfodydd, boed Cymru neu Lydaw, neu fyd natur yn y ddwy wlad. Mi ges i hyd yn oed gyfle i frolio fy mod i'n gallu gweld aderyn tlws o'r enw bronwen y dŵr, pan fyddaf eisiau! Mae hi jesd yn fater o gerdded am rhyw 20 munud o'r tŷ, cyrraedd yr afon Ogwen, a byddaf yn siwr o weld un o'r adar arbennig y mae llawer ohonoch yn adnabod mae'n debyg – wedi dweud hynny, ges i fy siomi'n arw ar ddydd Llun y Pasg pan wnes i fethu â gweld yr un



ohonynt...! Mae Daniel Garrin yn y grŵp Zoom yn gyfarwydd â'r aderyn ond nid yw erioed wedi gweld un ohonynt am y rheswm ei fod o wedi hen ddiflannu o Lydaw ers y 50au (Gweler y map

dosbarthiad). Nid yw Daniel ar ei ben ei hun chwaith, mae pobl a chymdeithasau sy'n ymwneud â byd adar yn Llydaw yn monitro'r sefyllfa ers degawdau. Mae'r gymdeithas *Bretagne Vivante (Breizh Vev - Llydaw Fyw)* mewn **nodyn** rhyfeddol ar bapur-llinellau ysgol, wedi ei deipio, neu gyda llawysgrifen taclus iawn yn cynnig rhywfaint o dystiolaeth. I gychwyn mae'n cynnig enw cynhenid Llydaweg sef *moualc'h-an-dour* (mwyalchen y dŵr) er bod 'na ddryswch posib gydag enw glas y dorlan.

Un o'r tystiolaethau hynaf yn trafod pysgotwr o Loegr :

«Ers i mi ei drafod ym 1934, nid wyf wedi gweld yr aderyn fy hun, serch hynny soniodd Penther (pensaer o Vitré/Morlaix) wrthyf am bysgotwr brythyll o Loegr oedd yn aros yn Llydaw oedd wedi dweud wrtho iddo weld bronwen y dŵr pan oedd yn pysgota wrth ymyl Pont ar Groaz ar afon Gindi, rhwng Tonkedeg a Kawan.»

Mae Yves le Cabellec (Iwan Kabelleg – yr Aelod Seneddol ²) yn awgrymu yn y bwletin *Ailes et Nature*:

«ei fod wedi diflannu o ddyffryn yr afon Skorv (yr afon olaf lle roedd bronwen y dŵr yn nythu yn Llydaw) a'i isafonydd ers rhyw pymtheg mlynedd (melnydd Koat Krenn, plwyf Ploue) – roedd yn trigo yn yr afon ar hyd y flwyddyn – roedd yn bosibl ei weld o gwmpas bron pob afon: Ele, Inam, Izol, Aer ayb.»

Mae R. Mahéo (R. Mazhev) yn awgrymu'r un peth: «Nid yw wedi cael ei gweld yn ardal Gwened) - mae'n debyg ei fod wedi diflannu rhwng 1946 a 1950.»

Dyma fanylion am ei gynefin:

«Yn Llydaw, nid yw L. Bureau wedi ei weld ond ar hyd afonydd tirwedd sy'n cynnwys gwenithfaen.»

Symudwn i'r 70au a'r 80au i gloi y gyfres hon o gofnodion:

«Daeth Gérard Moysan o gwmpas diwedd Hydref 1975, soniodd am dîm o wyddonwyr o Grenoble oedd wedi dod i weld afancod oedd wedi eu rhyddhau yn afon Elez. Mi fyddai'r tîm wedi gweld bronwen y dŵr rhwng Pont Koter a llyn Breniliz . Bydd yn rhaid iddo fo ofyn am fwy o fanylion.»

29 a 30 Mehefin 1979 :


«cyw ifanc yn nadu am fwyd gan riant ar lifddor Malon-Guipry (ardal Roazhon/Rennes).»

Ac i orffen:

«nid yw'r rhywogaeth yn nythu yn Llydaw ers y 50au, ond mae ychydig o unigolion wedi eu gweld, allan o'r ardal lle roeddent yn arfer nythu'n aml, a gwastad tu allan i'r cyfnod atgenhedlu.»

Cruon, R, et Nicolau-Guillaumet, P., 1985: Notes d'ornithologie française XII

Mae'r cofnodion i gyd yn rhoi darlun tebyg, ee: *GEOCA (2014). Oiseaux des Côtes-d'Armor*. Ond nid yw pobl wedi rhoi ffidil yn y to eto. Aeth *Société pour l'Étude et la Protection de la Nature en Bretagne (Breizh Vev heddiw)* ati hyd yn oed i gyhoeddi hysbyseb yn y papur newydd *Le Télégramme* ym 1974 i ofyn am gymorth gan y cyhoedd i chwilio am bronwen y dŵr. (llun 2)



Mae Daniel Garrin yn delio efo'r mater hefyd:

«N'on ket evit reiñ an titouroù-se. E 2002 e oa bet lavaret deomp (tud Breizh Vev Kreiz Breizh) gant prezidant an APPMA (ur C'H/ Conan bennak) e oa bet gwelet dourlaouiged-spluj (señkled neuze) tu-bennak tro-dro Pondi. Souezhet ac'hanomp un tamm, hon doa


klasket gouzout resisoc'h. Ne oe ket bet an den evit hom goulennoù, nemet e talc'he start d'e lavarou.»
 «Ni fedraf rhoi y manylion hyn i ti. Mi ddwedodd llywydd *APPMA* (pobl *Breizh Vev* yn Nghanol Llydaw) wrthom ni (dyn o'r enw Konan mae'n debyg) bod bronwennod y dŵr wedi cael eu gweld o gwmpas Pondivi. Mi wnaethom ni synnu, i ddweud y lleiaf, ac yna mi wnaethom ni ofyn am fwy o fanylion. Nid oedd y dyn yn barod i ymhelaethu, ond roedd yn sicr o'i bethau.»

Ffynonellau

«Setu amañ traoù tennet deus ar pennad "Cincle plongeur" e "Atlas des oiseaux nicheurs de Bretagne", 2012 (ha pep evn e-barzh gant e anv brezhonek, nag ur blijadur!).» «A dyma pethau wedi dod allan o'r erthygl «Cincle plongeur» (*Cinclus cinclus*) yn 'Atlas des oiseaux nicheurs de Bretagne', 2012 – Atlas yr adar sy'n nythu yn Llydaw – ac mae pob aderyn yn yr atlas yn dwyn enw Llydaweg - am bleser mawr!»

Mae erthygl yr atlas yn awgrymu bod bron pob un o'r cofnodion diwethaf yn gamgymeriadau. Mae'r Atlas hefyd yn rhoi enw Llydaweg i bob aderyn ond dewisodd yr iaith pellau o'r enw **moualc'h an dour** a dewis enw mwy gwyddonol sef **dourlaouig-spluj**. Mae Daniel yn manylu am hyn:

«An anv bet dibabet gant an evnoniour (ornitologour) breizhek a zo : **dourlaouig-spluj**. Amañ dindan menegoù deus al labourioù bet kaset evit envel an evned e brezhoneg. Anvioù Laboused Europa gant Pêrig Herbert, Roll an holl bennadoù. bet embannet er gelaouenn HOR YEZH (niv 188,189,193,194,196,203-204,206,213,217,220,224,227)», «dyma isod ffynhonnell i'r gwaith a gafodd ei wneud i enwi adar yn y Llydaweg., Sef Enwau Adar Europa Pêrig Herbert, Rhestr yr erthyglau i gyd a gafodd eu cyhoeddi yn y cylchgrawn **Hor Yezh** (Ein iaith).»



Bronwen y dŵr yng Ngorllewin Ewrop

Ac mae pobl yn dal i chwilio am ein 'mwyalchen y dŵr'. Mae'r ddau bapur newydd mwyaf adnabyddus yn Llydaw, **Ouest-France** (2019) a **le Télégramme** (2018), wedi cyhoeddi **erthyglau yn ddiweddar** am yr aderyn, chwedlonol erbyn hyn, yn Llydaw beth bynnag. Mae'r ffotograffydd Herve Kabbell (Hervé Cabel) yn rhagweld dychweliad ambell i aderyn :

"...neu bronwen y dŵr oedd wedi ei gweld am y tro olaf ar yr afon Trev (*Trieux*) ym 1970 ac sy'n newydd ei dal ar gamera wrth ymyl llwyth cerrig yr afon Goued (*le Gouet*) ym mlwyf Pleneventer (*Plaintel*)."
27/6/2019

Dominig Kervegant

Siglen lwyd



Ji-binc




Mwyalchen



Titw gynffon hir



Bronfraith



Cigfran



Telor yr ardd



Delor y cnau



Llên natur

CYMUNED Llên natur



Enw'r aderyn Pa Rif? Pwynt

Grugiar _____ 20
Cwtiar aur _____ 30
Ehedydd _____ 25

Enw'r aderyn Pa Rif? Pwynt

Cornchwiglen _____ 25
Gylfinir _____ 15
Tylluan glustiog _____ 35